**Dyddiad:** **26 Chwefror 2003**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Y Gallu i Faethu ac Amrywiadau yn yr Arferion Ledled Cymru**

## Pwrpas

1. Yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 20 Tachwedd, gofynnodd yr Aelodau ar i bapur i'w nodi gael ei ddarparu ar y gallu i faethu ac amrywiadau yn yr arferion ledled Cymru.

2. Mae adolygiad o'r gwasanaethau maethu yng Nghymru yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac mae'r papur hwn yn rhoi'r cefndir i'r adolygiad.

## Y cefndir

3. Dyma amcanion yr adolygiad:

- ystyried pwrpas ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal maeth o ran:
    - sicrhau canlyniadau gwell i blant - sicrwydd ymlyniad teuluol; cynhwysiant cymdeithasol; iechyd emosiynol a chorfforol; cyrhaeddiad addysgol a rhagolygon o ran gyrfa; y gallu i fod yn annibynnol;
    - darparu gwasanaethau - galluogi plant i fyw gyda'u teuluoedd; darpariaeth teulu cyfatebol; eu hamddiffyn rhag niwed; rheoli a newid ymddygiad niweidiol; cefnogi addysg a hyfforddiant; annog dull iach o fyw; lleihau troseddu; eu paratoi ar gyfer sefydlogrwydd neu ei ddarparu;
    - y cysylltiad â threfniadau eraill sy'n cefnogi plant mewn angen - gwasanaethau cymorth teuluol, darpariaeth iechyd ac addysg cyffredinol, gofal preswyl, ysgolion arbennig preswyl a CAHMS cleifion mewnol - ac â gwasanaethau ar gyfer troseddwyr ifanc, gan gynnwys yr ystâd ddiogel;
- nodi arferion gorau a chydnabod tystiolaeth o gamau i wella'r gwasanaeth;

- hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau gofal maeth a'u rheoli'n effeithiol yng Nghymru; ac

- amlinellu'r agenda datblygu gwasanaethau a chynnig camau i'w cymryd er mwyn gwella gwasanaethau gofal maeth yng Nghymru yn barhaus.

4. Dylai ddefnyddio'r wybodaeth a'r ymchwil sydd gennym eisoes yn y maes hwn ac adeiladu arno, gan roi sylw penodol i faterion sy'n arbennig i Gymru gan gynnwys effaith amddifadedd, ardal wledig ac iaith.

5. Mae'r adolygiad o wasanaethau maethu yn cael ei reoli gan dîm o gynrychiolwyr yr Is-adran Plant a Theuluoedd ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a chadeirydd annibynnol y grwp cyfeirio.

6. Bydd grwp cyfeirio o gynrychiolwyr y Grwp Gweithredu Fframwaith Lleoliadau ac ymarferwyr/ academyddion eraill a gyfetholwyd yn cefnogi gwaith tîm rheoli'r prosiect, yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu cwmpas, cylch gorchwyl a manylebau'r adolygiadau a rhoi cyngor ar faterion polisi ac arferion.

7. Bydd tîm rheoli'r adolygiadau yn penodi partner, a all fod yn unigolyn neu'n bartneriaeth neu sefydliad, i fod yn gyfrifol am elfennau'r adolygiad. Rôl y partner yw adolygu a choladu'r wybodaeth sydd ar gael, ymgynghori â'r grwp cyfeirio a llunio adroddiad drafft o'r adolygiad.

8. Bydd tîm rheoli’r adolygiadau yn rhoi adroddiad i'r Grwp Gweithredu Fframwaith Lleoliadau ar y cynnydd a wnaed o ran yr adolygiad. Y bwriad yw cwblhau drafft terfynol yr adolygiad erbyn Medi 2003.

9. Bydd yr adolygiad yn defnyddio:

- adolygiadau o lenyddiaeth;
- datblygiadau polisïau ac arferion yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a gwledydd eraill fel y bo'n briodol;
- dadansoddiad o'r data sy'n bodoli eisoes ynghyd â data ychwanegol a gesglir yn gyffredinol a thrwy ymchwil leol; a
- sesiynau ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, comisiynwyr a darparwyr.

10. Bydd yr adolygiad yn datblygu agenda ar gyfer gweithredu i sicrhau bod gwasanaethau gofal maeth yng Nghymru ar gael i fwy o bobl a gwella'u hansawdd a'u datblygiad yn y dyfodol.

11. Bydd y gwaith a gomisiynir yn adroddiad sy'n seiliedig ar adolygiadau o lenyddiaeth ac adolygiadau polisïau a dadansoddiad o'r data/gwybodaeth sydd ar gael. Caiff ei gyflwyno mewn dau gam.

**Cam Un**

12. Ystyried a disgrifio:

- rôl gofal maeth i blant a phobl ifanc o fewn cyd-destun bras polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a'u teuluoedd;
- gwahanol fodelau gofal maeth (sefydledig ac arfaethedig), gan gynnwys pwrpas, disgrifiadau, costau ac effeithiolrwydd (lle y bo wedi'i werthuso), a fydd yn cynnwys modelau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill;
- proffil presennol y ddarpariaeth gofal maeth a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru i ddiwallu anghenion plant y maent yn gofalu amdanynt (bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o leoliadau, systemau cymorth, costau, rhwystrau i arferion da)
- proffil o'r angen am ofal maeth ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys anghenion plant anabl a'r rheini o blith lleiafrifoedd du ac ethnig
- proffil gofalwyr maeth, gan gynnwys cymwysterau, profiad a hyfforddiant
- sut gellir gwella ac ategu'r ddarpariaeth gwasanaethau maethu a gwahanol fodelau gwasanaeth
- sut mae cymhwyso safonau ar gyfer asiantaethau maethu a gofalwyr maeth yn effeithio ar y lleoliadau sydd ar gael a'u hansawdd
- effaith cyflwyno asiantaethau maethu preifat a lleoli plant dros y ffin.

**Cam Dau**

13. Ystyried y canfyddiadau yng ngham un i lunio adroddiad sy'n datblygu amlinelliad o agenda i ddatblygu'r gwasanaethau a chynigion o ran gweithredu, gan gynnwys trefniadau cynllunio a chomisiynu strategol, er mwyn gwella gwasanaethau gofal maeth yn barhaus yng Nghymru.

**Gweithredu:**

14. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y ddogfen hon.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Swyddog Cyswllt: Mike Burns (Ffôn: 029 2082 6535)